

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Tomas Jones

Pori cylchdro a phorfeydd llysieuol

DU

09-Awst-19 a 11-Awst-19

1 Cefndir

Rwy'n gweithio'n rhan amser ac ar benwythnos gyda fy mam ar ein fferm deuluol fechan 120 erw. Ar hyn o bryd, ceir 160 o famogiaid a 30 o ŵyn benyw ar y fferm, a 12 o fuchod sy'n groesiadau o fridiau Aberdeen Angus a Henffordd. Rydym ni hefyd yn pesgi rhywfaint o wartheg stôr a gwerthir y gweddill yn 15 mis oed. Mae'r fferm yn wynebu anawsterau â chostau (porthiant, gwrtaith a chadw da byw yn ystod y gaeaf), ac rydym ni wedi sylweddoli nad ydym ni'n elwa'n llawn o'r glaswellt rydym ni'n ei dyfu. Mae ein glawiad cyfartalog blyneddol yn 900mm.

Bwriadau ac amcanion yr ymweliadau cyfnewid oedd dysgu sut i wneud gwell defnydd o'r glaswellt a dyfir ar ein fferm ar hyn o bryd, a thyfu rhagor o laswellt ar y fferm heb gynyddu'r defnydd o wrtaith nitrogen. Byddai hyn yn galluogi'r fferm i gynyddu cyfanswm y da byw a gedwir a lleihau costau cadw da byw dros y gaeaf ar y fferm oherwydd tymor tyfu hirach.

Yn ogystal â chael cipolwg ar wahanol systemau pori, roeddwn i hefyd yn dymuno dysgu am eu heffaith ar borfeydd llysieuol a sut maent yn effeithio ar strwythur pridd y fferm o ran lleihau colledion pridd a maetholion o'r fferm. Roeddwn i hefyd yn dymuno ystyried sut byddai hyn yn helpu i wella iechyd y ddiadell a'r fuches ar y fferm.

2 Y Daith

9 Awst 2019, James Evans, Partridge Farm, Linley, Bishops Castle, Swydd Amwythig.

Mae James yn cadw 330 o fuchod Stabiliser (190 yn lloea yn y gwanwyn a 130 yn lloea yn yr hydref) a 550 o famogiaid Llŷn. Roedd y fferm yn cael ei rhedeg yn gonfensiynol tan ychydig flynyddoedd yn ôl, pan oedd perchennog newydd yn dymuno ei throï yn fferm organig. Byddai hynny wedi golygu gorfod gostwng nifer y da byw oedd yn cael eu cadw fel rhan o'r system. Ond fe wnaeth buddsoddiad mewn ffensys trydan a system ddŵr olygu y gellir cadw'r un nifer o dda ar y fferm fwy neu lai ag yn achos yr hen system. Caiff yr holl wartheg ar y fferm eu symud bob tri diwrnod a chaiff y defaid eu symud o amgylch y porfeydd mwy serth ar ôl ŵyna.

Pwyntiau allweddol o'r ymweliad

- Caiff yr holl wartheg o system lloeau'r gwanwyn eu cadw allan dros y gaeaf ar borfa ohiriedig ac ni fydd y twf yn arafu o gwbl yn y gwanwyn.
- Defnyddir porfeydd llysieuol ar yr hen dir amaethu â'r helpu i wella strwythur y pridd, a'r nod yw gwella iechyd y pridd a pheidio cael yr allbwn mwyaf o'r tir hwn (cylchdro hirach, llai o bwyslais ar weddillion ar ôl pori, peidio tocio).
- Caiff caeau sydd wedi'u disbyddu eu gadael yn wag am gyfnodau hirach cyn eu pori drachefn fel y gwnaiff y glaswellt a'r meillion hadu (byddant yn hunan-hadu â chymorth y gwartheg). Maent hefyd yn ystyried dulliau o hau meillion a glaswellt trwy gyfrwng y gwartheg heb ddefnyddio peiriannau.
- Mae gwella'r borfa barhaol trwy'r system bori yn sicrhau mwy o feillion, porfa fwy amrywiol a gorchudd daear gwell.
- Caiff defaid eu cadw allan dros y gaeaf (o fis Ionawr tan fis Mawrth) gan ddefnyddio byrnau i'w porthi i alluogi'r gorchudd glaswellt i grynhoi er mwyn lleihau'r defnydd o ddwysfwydydd.
- Defnyddir mesurydd plât yn fisol i fesur gorchudd glaswellt, a chaiff y data eu mewnbynnu i raglen Farmax i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch pori (â chymorth eu hymgyngorydd pori).
- Mae system dŵr uwchlaw'r ddaear wedi cael ei gosod, a cheir hydrantau bob 100 metr fel y gellir symud y cafnau dŵr gyda'r gwartheg.

11 Awst 2019, Marc Jones, Trefnant Hall, Aberriw, Y Trallwng, Powys

Mae Trefnant Hall yn fferm 220 hectar sydd wedi'i rhannu'n ddau floc. Mae Marc yn cadw'r canlynol:

- 500 o famogiaid Romney a 125 o ŵyn benyw
- 400 o loi deg mis oed sy'n groesiadau o fridiau Aberdeen Angus a Henffordd
- 400 o wartheg stôr 22 mis sy'n groesiadau o fridiau Aberdeen Angus a Henffordd, yn cael eu pesgi.

Daw'r lloi i'r fferm ym mis Hydref, pan fyddant yn dal i gael llaeth, a chaiff gwartheg dros 12 mis oed eu cadw allan dros y gaeaf gan ddefnyddio betys a byrnau i'w pori. Caiff y gwartheg eu pesgi ar borfa a betys porthiant cyn iddynt droi'n 27 mis oed. Bydd mamogiaid yn ŵyna yn Ebrill a chaiff yr holl ŵyn eu pesgi ar y fferm trwy gydol y flwyddyn. Ffocws y fferm yw sicrhau cyfradd uchel o ran y da byw a gedwir ac enillion pwysau byw dyddiol sylweddol gan ddefnyddio glaswellt yn unig.

Pwyntiau allweddol o'r ymweliad

- Tyfir 20 hectar o fetys porthiant i sicrhau cyflenwad 5 ½ mis o fwyd ar gyfer y gwartheg sy'n cael eu cadw allan dros y gaeaf. Ni welir unrhyw arafu o ran cyfraddau twf y gwartheg yn y gwanwyn ar ôl eu cadw allan dros y gaeaf.
- Caiff yr holl wartheg eu symud bob 2 ddiwrnod a rhoddir sylw i hyd y cylchdro i sicrhau'r twf mwyaf o'r glaswellt (cyfartaledd o 1.6kg bob dydd).

- Caiff yr holl leiniau eu torri ymlaen llaw o leiaf unwaith y flwyddyn i gynnal ansawdd ac i sicrhau'r twf glaswellt gorau posib (cyfartaledd o 12 tunnell fetrig o ddeunydd sych fesul hectar).
- Roedd y porfeydd llysieuol wedi cael eu hau yn uniongyrchol ar borfa oedd wedi cael ei chwistrellu gan ddefnyddio drill Guttler Greenmaster ar y tir mwy serth oherwydd llosgi'r llethrau sy'n wynebu'r de dros yr haf. Yn ystod y tymor cyntaf ar ôl rhoi cynnig ar hyn, maent wedi cynhyrchu'n dda.
- Mae glaswellt â chyfran uchel o siwgr a meillion coch gan Aber wedi cael eu hau yn dilyn y betys porthiant er mwyn cynyddu'r gyfradd o brotein yn y borfa ac i gynyddu enillion pwysau byw dyddiol. Yna, caiff y rhain eu troshadu â meillion gwyn pan fydd y cynnwys meillion coch yn cychwyn gostwng.
- Caiff y mamogiaid eu cadw allan dros y gaeaf gan ddefnyddio betys porthiant a swêds rhwng Ionawr a Mawrth. Yna, cânt eu stocio'n sefydlog fis cyn ffermio.
- Defnyddir mesurydd plât i fesur twf y glaswellt unwaith bob wythnos, a chaiff y wybodaeth ei fewnbynnu i AgriNet i helpu â phenderfyniadau
- Mae system ddŵr y fferm yn system barhaol sy'n defnyddio cafnau congrid oherwydd maint y criwiau o wartheg ar y fferm (dim ond 2 griw o wartheg, un criw o wartheg iau ac un criw o wartheg hŷn).

3 Y Camau Nesaf

Gartref ar y fferm, rwy'n bwriadu

- Cychwyn mesur y glaswellt i geisio cynyddu'r gorchudd glaswellt yn nes at y gaeaf.
- Ceisio cynyddu tymor pori'r gwartheg cyn i ni gychwyn eu porthi â byrnau trwy symud ffensys trydan ymlaen i atal gwartheg rhag dychwelyd i fannau sydd wedi'u pori, i gynyddu gorchudd glaswellt i mewn i'r gaeaf.
- Cychwyn porthi'r defaid â byrnau yn gynharach (Rhagfyr) i gynyddu gorchudd glaswellt ar gyfer y mamogiaid sy'n wyna tu allan o'r 15fed o Fawrth.
- Pori'r gwartheg yn gynharach y gwanwyn nesaf i annog twf glaswellt.
- Cau'r caeau silwair pan fydd y gorchudd glaswellt yn fwy na'r galw.
- Cynyddu'r defnydd o symud ffensys trydan ymlaen i atal da byw rhag dychwelyd i'r mannau y maent eisoes wedi'u pori i gynorthwyo'r borfa i adfywio.
- Cynyddu'r gorchudd glaswellt ar rai caeau sydd wedi'i disbyddu a pheidio poeni am y gweddillion sydd ar ôl i geisio gwella strwythur pridd y mannau hyn.
- Gostwng y llecyn y gall y da byw ei bori ar y tro fel y byddant yn pori llecynnau am uchafswm o 3 diwrnod yn unig.
- Ail-hadu llecynnau â chnwd o rêp i besgi wŷn â phorfa llysieuol, nid rhygwellt yn unig.

4 Negeseuon allweddol i'r diwydiant

1. Cynyddu'r defnydd o symud ffensys trydan ymlaen i atal da byw rhag dychwelyd i fannau sydd eisoes wedi'u pori i wella gallu'r borfa i adfywio.
2. Cynyddu'r defnydd o feillion coch a phorfeydd llysieuol i gynyddu enillion pwysau byw dyddiol a gostwng y defnydd o wrtaith; fe wnaiff hynny hefyd wella strwythur y pridd

a lleihau cyfanswm y maetholion a gollir oherwydd gwahanol ddyfnderoedd gwreiddio.

3. Profi'r pridd yn rheolaidd.
4. Mae gorchudd glaswellt cyfartalog y fferm yn effeithio'n sylweddol ar dwf glaswellt yn ystod y gwanwyn a'r haf.



Hydrant syml a chafn symudol yn Partridge Farm




Porfa lyseiuol a bustach 18 mis oed yn ei phori yn Partridge Farm



40 o fuchod a lloi yn pori llain 1ha fel rhan o gylchdro 2 ddiwrnod yn Partridge Farm



Meillion coch yn tyfu ar ôl eu porthi fel byrnau i'r heffrod ar y borfa ohiriedig dros y gaeaf. Maent wedi cael eu gadael i hadu i geisio'u gwasgaru i bob rhan o'r cae (Partridge Farm)



Criw unigol o 370 o wartheg yn pori yn Trefnant Hall



Criw o ŵyn ar gylchdro 1 diwrnod ar feillion coch yn Trefnant Hall



Bety's porthiant a byrnau yn barod at y gaeaf yn Trefnant Hall